Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Independent Review of Support for Publishing and Literature in Wales
Ymateb gan Dr Nerys Williams / Evidence from Dr Nerys Williams, University College Dublin

**Yn ystod y Preswyliad (Dydd Llun 8 – Dydd Sul 28 Mai 2017).**

1. Cyfansoddi cerdd hir *Calendar on Fire* (cyfres of ddeg cerdd) sydd yn darlunio sefyllfa ddychymgus ble byddai Hedd Wyn a'r bardd o Iwerddon Francis Ledwidge yn cwrdd. Ma'r gyfres yn codi cwestiynau perthnasol yn ymwneud â chenedlaetholdeb, Ewropeaeth, dyfeisgarwch ieithyddol, yn ogystal â her moderniaeth ar ffurfiau barddoniaeth traddodiadol. Mae'r gerdd yn holi a oes diwylliant militaraidd wedi tyfu yng Nghymru yn y cyfnod ers datganoli, a sut ydw i fel bardd benywaidd, dwyieithog, gwrth-ymladdol, yn ymhel â hanes rhyfela?

2. Noson o farddoniaeth, rhyddiaith, cerddoriaeth a thrafodaeth ar Hedd Wyn a beirdd y Rhyfel Byd Cyntaf yn Passa Porta, Tŷ Rhyngwladol Llenyddiaeth ym Mrwsel 23eg Mai, 2017.

http://www.passaporta.be/en/agenda/poetry-of-loss-barddoniaeth-colled

3. Darlith yn yr Embasi Wyddelig 'Poets of the Black Chair: Francis Ledwidge and Hedd Wyn 1887-1917' Darllen barddoniaeth Hedd Wyn yng nghydestun profiad y bardd Gwyddelig Francis Ledwidge. 22ain Mai, 2017.

4. Darlleniad o ddrafft *Calendar on Fire* yn *Passa Porta* i'r staff, awduron a chysylltiadau'r Ty Llenyddiaeth Rhyngwladol. 17ain Mai 2017.

5. 3 blog

- 'Brwsel Wythnos Un' https://www.llenyddiaethcymru.org/lw-blog/6969/
- 'Barddoniaeth a Dogfen: Asio Cymru, Iwerddon a Gwlad Belg'

http://www.llenyddiaethcymru.org/lw-blog/preswyliad-llenyddol-barddoniaeth-colled-brwsel-2-gan-nerys-williams/

- 'Ffiniau, Pŷg a Boezinge' http://www.llenyddiaethcymru.org/lw-blog/preswyliad-llenyddol-barddoniaeth-colled-brwsel-3-gan-nerys-williams/

**Ers y Preswyliad**

1. Darlith yn *Hinterland Festival* (Kells Co Meath) ar Hedd Wyn a barddoni Rhyfel 23ain Mehefin, 2017.

2. Un o'r cerddi 'Taxing the Bachelors' o'r gyfres *Calendar on Fire* (gyfansoddwyd) ym Mrwsel wedi ei ddarlledu gan RTE Radio- *Sunday Miscellany* i nodi canmlwyddiant Hedd Wyn a Ledwidge. 30ain Gorffennaf, 2017.

3. Ysgrif/script radio fer 'Meeting Hedd Wyn in *Le Cirio*, Rue de la Bourse (A Letter)' wnes i sgwennu yn *Passa Porta,* wedi ei ddarlledu ar *Sunday Miscellany* 30ain Gorffennaf, 2017. http://www.rte.ie/radio1/sunday-miscellany/podcasts/

4. Darn i *Barddas* aeth allan adeg y canmlwyddiant 31ain Gorffennaf 2017. Deillio o ddarnau wnes i 'sgwennu ym Mrwsel mewn ymateb i'r Gadair 'Wag'a grewyd gan myfyrwyr Mechelen a roddwyd fel cadair coffa i Gymru.

5. Cyfraniad i Raglen Radio BBC Cymru ar *Yr Arwr* wedi ei gynhyrchu gan Irfon Jones. 3ydd Awst 2017 http://www.bbc.co.uk/programmes/b08zfgcb

6. Cyfraniad i Raglen Dylan Iorwerth Radio Cymru *O Dan yr Wyneb* 1af Awst 2017.

7. Cyfrol newydd o farddoniaeth newydd wedi ei gwblhau *Cabaret* (New Dublin Press) Medi 2017.

http://www.newdublinpress.org/store/cabaret

**Digwyddiadau Coffáol (y Dyfoldol)**

1. Cyfle i gymeryd rhan yn Nulyn fel rhan o sioe deithiol y Prifardd Ifor ap Glyn *Y Gadair Wag* yn The Irish Writers' Centre, Dulyn (darllen cerddi gwreiddiol) 13eg Medi, 2017.

https://irishwriterscentre.ie/products/y-gadair-wag-the-empty-chair-an-chathaoir-fholamh

2. Cynrychioli safbwynt 'Gymreig' yn nathliadau canmlwyddiant cenedlaethol Ledwidge yn Slane (darn am Ledwidge a Hedd Wyn). *Francis Ledwidge – Poetry and the First World War 1917-2017*. 14eg Hydref , 2017.

Rhaid nodi fod *Llenydiaeth Cymru* wedi bod yn hynod o gefnogol a phroffesiynol yn ystod y preswyliad, ac heb os wnath y profiad fy helpu i ddatblygu proffil defnyddiol i bontio cysylltiadau celfyddydol rhwng Iwerddon a Chymry. Ag wrth gwrs, dwi yn hapus iawn i meithrin unrhyw beth all fod yn bostitif i Gymru (mewn cyfnod gwleidyddol sydd yn ofnadwy o gythrybus). Mae'n amlwg fod *Llenyddiaeth Cymru* am barhau meithrin eu cysylltiadu celfyddydol efo sefydliadau yn Iwerddon a datblygu rhydwaith gref. Ym mhob darllediad cyhoeddus, dwi wedi crybwyll pwysigrwydd cefnogaeth y preswyliad a chefnogaeth *Llenyddiaeth Cymru* a *Llywodraeth Cymru*. Yn y blynyddoed sydd ohoni, rwy'n sicr fydd Cymru yn edrych fwy at y diaspora gref Gymreig o fewn Ewrop, ac ar draws y byd. Wrth gwrs 'diw bardd (sydd yn wreiddiol o Sir Gaerfyrddin) ddim yn esgus i fod yn 'Captain of Industry'. Ond ma gwneud y cysylltiadau celfyddydol yn bwysig i barhad ddelwedd bositif o beth yw Cymreictod (yn fy nhyb i). Dyma'r bursary lenyddol gyntaf o Gymru medrais ymgeisio amdani- gan fod y mwyafrif yn dibynnu ar fod yn drigolyn parhaol. Roeddwn yn ddiolchgar iawn fod y cyfle yno.

I gloi, teimlaf fod *Llenyddiaeth Cymru* yn awchus i ddatblygu proffil a gwerth celfyddyd Cymru tu hwnt I Gymru.

Dwi'n gobeitho fydd y sylwebaeth yma yn helpu i lenwi ambell i 'dwll' ynghlyn ag amcanion rhyngwladol *Llenyddiaeth Cymru* yn yr adroddiad gwreiddiol.

Gwefan:
[https://www.ucd.ie/research/people/englishdramafilm/assoc%20professorneryso wenwilliams/](https://www.ucd.ie/research/people/englishdramafilm/assoc%20professornerysowenwilliams/)